# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
# Single Unified Safeguarding Review

# BWLETIN MISOL

**IONAWR 2025**

**Croeso** i rifyn cyntaf Bwletin Adolygiad Diogelu Unedig Sengl. Bydd y bwletinau yn cael eu hanfon bob mis a byddant yn cynnwys gwybodaeth a'r diweddaraf am y canlynol:

- ADUSau **sydd wedi'u comisiynu a'u cyhoeddi** yn ystod y mis diwethaf
- ·Unrhyw **ddysgu brys** o berthnasedd cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg o ADUSau sydd ar y gweill
- **Myfyrdodau ac arferion da** sy'n deillio o Adolygiadau
- Digwyddiadau **hyfforddi a dysgu** sydd ar ddod
- Newyddion **perthnasol** arall

**ADUSau wedi'u comisiynu**

Ers mynd yn fyw ar 1 Hydref 2024, mae Hwb Cydgysylltu ADUS wedi cael 5 hysbysiad ADUS.

**ADUSau wedi'u cyhoeddi**

Ym mis Hydref 2024, gwnaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg gyhoeddi adroddiad peilot ADUS yn ymwneud â lladdiad iechyd meddwl.

## Newyddion



Ar 5 Rhagfyr, croesawodd Dawn Bowden, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, randdeiliaid i Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd ar gyfer lansiad Gweinidogol ADUS.

# Myfyrdodau Adolygiadau

## Canfyddiadau

Mae cyfarfodydd myfyrio wedi'u cynnal gyda phersonél a oedd yn ymwneud â dau beilot ADUS. Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Pwysigrwydd amser gwarchodedig er mwyn gallu ymgymryd â rolau Aelod o'r Panel, Adolygydd a Chadeirydd
- Ymwneud â theuluoedd a sut orau i weithio gyda nhw
- Heriau o ran llunio argymhellion
- Manteision 'Cynghorwyr Arbenigol' iechyd meddwl ar gyfer y Panel

## Arferion Da

TAmlygodd y cyfarfodydd myfyrio yr arferion da a ganlyn o ran ymwneud â theuluoedd:

- Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r teulu am gwestiynau ar gyfer y Panel Adolygu cyn y cyfarfod panel / cyfarfod teulu. Gwnaeth hyn sicrhau bod Aelodau'r Panel yn gallu paratoi ac ateb holl gwestiynau'r teulu ar y diwrnod.
- Am ragor o enghreifftiau o arferion da ar gyfer ymgysylltu â'r sawl sy'n destun yr adolygiad a theuluoedd, edrychwch ar y Siart Lif Ymgysylltu sydd wedi'i datblygu yn ddiweddar ar gyfer Adolygwyr a Chadeiryddion.

**Hoffem glywed gennych chi!**
Rhannwch unrhyw arferion da a nodwyd yn rhan o ADUS â Hwb Cydgysylltu ADUS drwy anfon e-bost i ADUSCymru@llyw.cymru

## Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd yn fuan ym mis Chwefror. Mae lleoedd wedi'i neilltuo i bob Bwrdd Diogelu a byddant yn enwebu unigolion o'u rhanbarth i fod yn bresennol. Ar hyn o bryd, mae pecyn e-ddysgu yn cael ei ddatblygu gan Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n cynnwys modiwlau ar gyfer Aelodau'r Panel, Adolygwyr, Cadeiryddion ac Uwch-arweinwyr - Cadwch lygad allan!

## Beth Nesaf?

Mae'r Hwb Cydgysylltu wedi ymwneud â Phrifysgol Metropolitan Manceinion ynghylch eu gwaith ar fframwaith argymhellion i weld sut y gellid cymhwyso hyn i ADUSau. Dylai hyn fod o gymorth wrth lunio a safoni argymhellion.

Bydd Digwyddiad Lledaenu yn y gwanwyn yn canolbwyntio ar arferion gorau o ran llunio argymhellion. Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiad hwn yn cael eu rhannu ym mis Chwefror.

Gellir dod o hyd i ddolenni at holl adnoddau ADUS yma